

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 71/2022  
DYDDIAD CYHOEDDI: 10 TACHWEDD 2022

# Gwerthusiad o Brosiect Gwyliau Gwaith Chwarae 2021/22

Teitl: Gwerthusiad o Brosiect Gwyliau Gwaith Chwarae  
2021/22

Awduron:

Sioned Lewis a Kara Stedman, Ymchwil Arad

Ar gael trwy droi at: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-brosiect-gwyliau-gwaith-chwarae-mawrth-2021-mawrth-2022>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai  
Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Dr Jack Watkins

Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [TrafodGofalPlant@llyw.cymru](mailto:TrafodGofalPlant@llyw.cymru)

## Cynnwys

Rhestr Ffigurau .....	2
1. Cyflwyniad .....	3
2. Methodoleg.....	7
3. Darparu Gwaith Chwarae .....	11
4. Canfyddiadau: Darparu Gwaith Chwarae 2021 .....	16
5. Canfyddiadau: Gwaith Chwarae 2021 yn gwneud gwahaniaeth i blant a theuluoedd	22
6. Casgliadau ac argymhellion .....	32

## Rhestr Ffigurau

Ffigur 2.1: Nodau'r Gwerthusiad	7
Ffigur 3.1: Mathau o weithgareddau chwarae a ariannwyd	13
Ffigur 5.1: Buddion bwriadedig Gwaith Chwarae 2102	23

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i werthuso blwyddyn gyntaf Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae, o fis Mawrth 2021 tan fis Mawrth 2022. Nod y gwerthusiad, a gynhaliwyd gan Ymchwil Arad, oedd asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae ('Gwaith Chwarae 2021').

### **Cyd-destun a chefnidir Gwaith Chwarae 2021**

#### *Prosiect gwaith chwarae 2021/22*

- 1.1 Mae dyletswydd ar bob awdurdod lleol ar draws Cymru i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer y plant yn eu hardal.<sup>1</sup> Mae rhan o'r ddyletswydd yn mynnu bod pob awdurdod lleol yn asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn eu hardal ac un o brif ddibenion cyllid Gwaith Chwarae 2021 oedd galluogi awdurdodau lleol i gyflawni rhai o'r camau gweithredu yn eu Cynlluniau Gweithredu Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2021 – 2022.
- 1.2 Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, neilltuwyd £1m i ddarparu Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae. Y bwriad oedd y byddai'r cyllid yn caniatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio cynlluniau gwaith chwarae cymunedol er mwyn cynnig darpariaeth i fwy o blant nag y byddent wedi gallu ei wneud fel arall. Y nod – fel y nodwyd mewn canllawiau i awdurdodau lleol – oedd cynnig cyfleoedd chwarae gwell i blant mewn cymunedau agored i niwed a gwireddu budd hyn i ddatblygiad plant a'u lefelau gweithgarwch<sup>2</sup>. Cyflawnwyd hyn i gyd ar adeg pan oedd gwir angen i gynorthwyo gweithgarwch chwarae plant, yn dilyn effaith cyfyngiadau pandemig y coronafeirws ar allu plant i chwarae.
- 1.3 Defnyddiodd pob awdurdod lleol gyllid Gwaith Chwarae 2021. Roedd mathau a swm y ddarpariaeth chwarae yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, ac roedd nifer y plant a oedd wedi cael budd wedi amrywio o 85 i 2500 o blant ym mhob ardal

---

<sup>1</sup> [Cymru: gwlad lle mae cyfle i chwarae | LLYW.CYMRU](#)

<sup>2</sup> Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae 2021/22: Canllawiau i Awdurdodau Lleol. Ebrill 2021 (Heb ei gyhoeddi)

awdurdod.<sup>3</sup> Roedd y mathau o weithgareddau chwarae a ariannwyd yn cynnwys chwarae mynediad agored, chwarae stryd, darparu offer chwarae, sesiynau chwaraeon, celf a chrefft. Gweler hefyd ffigur 3.1.

### *Cyd-destun Polisi*

- 1.4 Mae'r ddyletswydd i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol yn rhan o agenda wrthdlodi Llywodraeth Cymru sy'n cydnabod y gall plant brofi tlodi o ran profiadau, cyfleoedd a dyheadau, ac y gall hyn effeithio ar bob plentyn o bob cefndir. Fe wnaeth yr Adroddiad Cynnydd ar Dlodi Plant<sup>4</sup> nodi bod tlodi yn parhau i fod yn uchel yng Nghymru gyda bron i draean o blant yn 2018 (29%) yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Cafodd 66,000 o ddisgyblion brydau ysgol am ddim ar draws Cymru, ar draws pob grŵp oedran<sup>5</sup>, ond cyn 2021 ni oedd y teuluoedd a'r plant hynny'n cael cefnogaeth reolaidd ar y 170 diwrnod y mae ysgolion ar gau ar gyfer gwyliau. Yng Nghymru, fel yn y DU yn ehangach, gwelwyd twf uchel yn nifer y teuluoedd sy'n gofyn am gymorth gan fanciau bwyd, a thros y blynyddoedd mae elusennau ac eraill wedi bod yn galw am fwy o gefnogaeth i deuluoedd sy'n cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd yn ystod gwyliau ysgol (er enghraifft adroddiad Sefydliad Bevan 'Kids on the breadline'<sup>6</sup>)
- 1.5 Er mwyn helpu i fynd i'r afael â newyn gwyliau, dyrannodd Llywodraeth Cymru £100,000 yn 2019-20 i brofi ymarferoldeb mynd i'r afael â newyn gwyliau drwy chwarae a lleoliadau cymunedol. Fe wnaeth y cynllun peilot hwn hwyluso darparu prydau bwyd yn ystod gwyliau hanner tymor yr haf a Hydref 2019 mewn clybiau gweithgareddau. Canfu gwerthusiad<sup>7</sup> fod bron i hanner y plant a gwblhaodd arolygon yn teimlo'n llai llwglyd o ganlyniad i fynychu'r peilot, gwnaeth hanner roi

---

<sup>3</sup> Roedd gweithgareddau'r awdurdodau lleol yn cynnwys darpariaeth mynediad agored, hyfforddiant ar gyfer staff a dosbarthu adnoddau a deunyddiau chwarae, ac ni wnaethpwyd cofnod o'r plant a oedd yn mynychu neu'n cael gweithgarwch wedi'i ariannu gan waith chwarae ar gyfer y gweithgareddau hyn bob amser. Felly, ni ellir cynnig amcangyfrif ystyrlon o gyfanswm y plant yr oedd cyllid Gwaith Chwarae 2021 wedi llwyddo i'w cyrraedd.

<sup>4</sup> [Strategaeth Tlodi Plant: adroddiad cynnydd 2019 | LLYW.CYMRU](#)

<sup>5</sup> [Nifer y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim ar ddiwrnod y cyfrifiad fesul awdurdod lleol, rhanbarth a blwyddyn \(llyw.cymru\)](#)

<sup>6</sup> [Kids on the breadline: solutions to holiday hunger | Bevan Foundation](#)

<sup>7</sup> [Llwg yn ystod y gwyliau: peilot gwaith chwarae | LLYW.CYMRU](#)

cynnig ar fwydydd newydd, dywedodd chwarter eu bod yn bwyta mwy o ffrwythau a llysiau a dywedodd traean o rieni ei fod wedi helpu gyda chost bwyd yn ystod gwyliau ysgol. Roedd manteision ychwanegol hefyd, gan gynnwys plant yn yfed mwy o ddŵr, yn rhoi cynnig ar weithgareddau newydd, yn cymryd rhan mewn ymarfer corff ac yn cael hwyl. Y casgliad oedd ei bod yn ymddangos fod ariannu darpariaeth bwyd mewn safleoedd gwaith chwarae yn ffordd gost-effeithiol o fynd i'r afael â newyn gwyliau.

- 1.6 Yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21, cafodd cyllid ei ddyrannu ar gyfer blwyddyn arall o'r Prosiect Gwaith Chwarae Llwg yn ystod y Gwyliau fel y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, ar yr un pryd roedd Gweinidogion hefyd wedi ymrwymo i ymestyn prydau ysgol am ddim i gwmpasu pob cyfnod o wyliau ysgol am y flwyddyn. Oherwydd argaeledd prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau, fe addaswyd y cyllid ar gyfer y Prosiect fel nad oedd bellach yn cynnwys prydau bwyd fel maen prawf craidd. Cafodd y cyllid a addaswyd ynghyd â £600k o gyllid o gyllideb addysg Llywodraeth Cymru ei ddyrannu i awdurdodau lleol drwy'r Gronfa Caledi Frys i Awdurdodau Lleol i'w galluogi i wella gofal plant a chyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc rhwng pump ac 16 oed er mwyn darparu ar gyfer pawb a oedd angen cymorth ychwanegol dros yr haf.
- 1.7 Yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22, dyrannwyd £1m i gynyddu'r ddarpariaeth gwaith chwarae yn ystod gwyliau a hynny mewn cymunedau agored i niwed yn bennaf, o dan y Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae 2021 (Gwaith Chwarae 2021). Gan fod prydau ysgol am ddim yn dal i fod ar gael, roedd yr awdurdodau lleol wedi gallu darparu bwyd yn ôl eu disgrisiwn os oeddent yn teimlo bod plant yn llwgu.

### *Cynlluniau eraill*

- 1.8 Mae Gwaith Chwarae 2021 yn eistedd wrth ymyl buddsoddiad arall a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru ym maes chwarae, a'r un amlycaf o'r rhain yw Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf<sup>8</sup> (SHEP), Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles. Mae'r cynlluniau

---

<sup>8</sup> Manylion Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf; Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf 'Bwyd a Hwyl'- CLILC; Manylion Haf o Hwyl: [Haf o Hwyl i helpu plant a phobl ifanc i adfer o'r pandemig | LLYW.CYMRU](#). Manylion Gaeaf Llawn Lles: [Gaeaf Llawn Lles: gweithgareddau chwaraeon i helpu pobl ifanc i gadw'n heini yn y gaeaf | LLYW.CYMRU](#)

hyn oll yn cyfrannu at ddarparu rhagor o weithgareddau i blant a phobl ifanc, er bod ganddynt nodau ychydig yn wahanol. Mae SHEP wedi bod yn rhedeg er 2015 a'i nod yw cynyddu cyflawniad addysgol trwy chwarae, a lanswyd Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles yn 2021 er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol gynorthwyo cyfleoedd chwarae cymunedol i blant a phobl ifanc fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynorthwyo plant a phobl ifanc i adfer yn dilyn y pandemig.

- 1.9 Mae SHEP, Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles, ar ffurf grantiau er mwyn helpu awdurdodau lleol, ac roeddent oll yn gweithredu yn ystod yr un cyfnod ag yr oedd Gwaith Chwarae 2021 yn gweithredu. Fel arfer, rheolwyd y cynlluniau gan yr un unigolion yn yr awdurdodau lleol â'r rhai a oedd yn arwain Gwaith Chwarae, ac mewn rhai ardaloedd, darparwyd y prosiectau gan yr un darparwyr chwarae. Ceir gwahaniaeth o ran y gyfradd ariannu: roedd Gwaith Chwarae 2021 ar draws Cymru yn ymwneud â chronfeydd o hyd at £1.25 miliwn ac mae £4.85m wedi cael ei neilltuo ar gyfer SHEP yn 2022 a £5m ar gyfer Haf o Hwyl. Roedd Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles yn gynlluniau newydd yn 2021.



## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adran hon yn nodi manylion y cwestiynau ymchwil penodol ar gyfer y gwerthusiad ac mae'n amlinellu'r fethodoleg a fabwysiadwyd. Roedd y gwerthusiad wedi canolbwyntio ar y prif themâu a nodir yn ffigur 2.1:

### Ffigur 2.1: Nodau'r Gwerthusiad

- Mapio sut y mae modelau cyflawni awdurdodau lleol wedi amrywio
- Archwilio manteision mynychu darpariaeth gwaith chwarae o bersectif plant a phobl ifanc, eu teuluoedd, gweithwyr chwarae, a phartneriaid cyflawni eraill
- Dealltwriaeth o'r hyn sy'n galluogi ac sy'n cymell plant a phobl ifanc i fynychu'r prosiect
  - Ymchwilio a oes unrhyw grwpiau o blant sy'n mynychu'r prosiect yn llwglyd weithiau a / neu'n cael cyfleoedd i fwyta bwyd/byrbrydau iach yn ystod y gwyliau ysgol
- Archwilio effeithlonrwydd prosesau gweinyddol a gweithredol, yr hyn a oedd wedi gweithio'n dda a'r hyn nad oedd wedi gweithio'n dda
- Asesu'r graddau y mae awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni wedi ystyried cyfle cyfartal, hygyrchedd a darparu trwy gyfrwng y Gymraeg
- Nodi pa elfennau ychwanegol y mae'r prosiect wedi eu cyflawni y tu hwnt i'r hyn a fyddai wedi digwydd heb sicrhau cyllid ar gyfer y prosiect
- Nodi arfer da a syniadau er mwyn gwella'r ddarpariaeth yn ystod y gwyliau a gwaith chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc yn y dyfodol.

Ffynhonnell: Gwahoddiad i dendro Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae

#### *Ymchwil desg a datblygu offerynnau ymchwil*

2.2 Adolygodd Arad amrediad o ddogfennau polisi a darparu a oedd yn ymwneud â'r Peilot. Roedd y rhain yn cynnwys y canllawiau i awdurdodau lleol, y gwerthusiad o beilot Llwg yn ystod y Gwyliau a gynhaliwyd cyn Gwaith Chwarae 2021, a ffurflenni monitro a ffurflenni cynnig yr awdurdodau lleol.<sup>9,10</sup> Cyfrannodd yr ymchwil desg hwn at ddatblygiad offerynnau ymchwil a phenderfyniadau cyfeiriedig a oedd yn ymwneud â'r broses werthuso.

2.3 Datblygodd Arad gyfres o ganllawiau cyfweld lled-strwythuredig er mwyn casglu data ansoddol trwy gyfrwng cyfweiliadau gyda phartneriaid polisi a chyflawni. Y prif themâu yn y canllawiau cyfweld hyn oedd y rhesymeg dros gynllunio a gweithredu'r

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru: Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae 2021/22: Canllawiau i Awdurdodau Lleol Ebrill 2021 (heb ei gyhoeddi)

<sup>10</sup> [Llwg yn ystod y gwyliau: peilot gwaith chwarae | LLYW.CYMRU](#)

prosiect; manylion y broses gyflawni a gweinyddu; canlyniadau ac effeithiau disgwylidig a dilyniant y prosiect yn y dyfodol.

2.4 Yn ogystal, datblygodd Arad ganllaw lled-strwythuredig er mwyn casglu data ansoddol trwy gyfrwng cyfweiliadau gyda swyddog arweiniol dros chwarae awdurdodau lleol (y defnyddir y talfyriad 'arweinwyr chwarae' er mwyn cyfeirio atynt o hyn ymlaen). Roedd y prif themâu yn y canllawiau cyfweld hyn fel a ganlyn:

- Deall nodau'r Prosiect
- Profiad o ddarparu Gwaith Chwarae
- Effeithiolrwydd y cymorth a ddarparwyd
- Yr hyn sydd wedi gweithio'n dda / y byddai modd ei wella yn eu barn nhw
- Safbwyntiau am effaith y Prosiect ar leoliadau, teuluoedd a phlant / pobl ifanc
- Cynlluniau ar gyfer defnyddio'r cyllid yn y dyfodol.

2.5 Yn wreiddiol, paratowyd arolwg ar-lein ar gyfer darparwyr prosiectau gwyliau a theuluoedd a fu'n cymryd rhan, ond ar ôl cynnal y cyfweiliadau a'r ymchwil desg cynnar, daeth yn amlwg bod niferoedd y prosiectau yn rhy fach a bod math y prosiectau yn rhy amrywiol er mwyn iddynt fod yn addas ar gyfer arolwg. Cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig yn lle hynny.

#### *Adolygu data monitro*

2.6 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i arweinwyr chwarae awdurdodau lleol i gyflwyno ffurflenni cynnig am eu cynlluniau er mwyn nodi sut y byddent yn defnyddio cyllid Gwaith Chwarae 2021. Yn ogystal, gofynnwyd i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni monitro ar ôl cwblhau pob prosiect Gwaith Chwarae 2021. Mae'r ffurflenni hyn yn cynnwys gwybodaeth megis pa fath o brosiectau a gynhaliwyd, y mathau o weithgareddau, faint o blant oedd wedi cymryd rhan, math y lleoliad a chyfrwng iaith. Cyflwynwyd cyfanswm o 65 o ffurflenni monitro gan 10 awdurdod lleol gwahanol.

2.7 Adolygodd Arad y ffurflenni monitro er mwyn coladu crynodeb o'r hyn a ddarparwyd (gweler pennod 3). Pan nad oedd awdurdodau lleol wedi cyflwyno ffurflen fonitro, defnyddiwyd gwybodaeth o ffurflenni cynigion a chyfweiliadau gydag arweinwyr chwarae.

*Ymgysylltu gyda phartneriaid polisi a darparu ac arweinwyr chwarae awdurdodau lleol*

- 2.8 Cynhaliodd Arad gyfweiliadau gydag unigolion a fu'n ymwneud gyda'r gwaith o gynllunio a darparu prosiect gwyliau Gwaith Chwarae 2021 yn Llywodraeth Cymru (dau unigolyn) a Chwarae Cymru (un unigolyn).
- 2.9 Cysylltodd Arad ag arweinwyr chwarae y 22 awdurdod lleol, gan estyn gwahoddiad iddynt gymryd rhan mewn cyfweiliad i drafod cyllid Gwaith Chwarae 2021. Roedd unigolion o 17 awdurdod lleol wedi cymryd rhan mewn cyfweiliad gydag Arad.
- 2.10 Yn ogystal, estynnodd Arad wahoddiad i holl arweinwyr chwarae yr awdurdodau lleol i gymryd rhan mewn gweithdy grŵp ar-lein i drafod cyllid Gwaith Chwarae 2021 a rhoi adborth amdano. Roedd arweinwyr chwarae 15 awdurdod lleol wedi cymryd rhan yn y gweithdy grŵp, a gyda'i gilydd, llwyddodd y ddau ymarfer gwaith maes i gyrraedd 18 awdurdod lleol.

*Gwaith maes gyda darparwyr prosiect gwyliau Gwaith Chwarae 2021*

- 2.11 Yn ystod cyfweiliadau gydag arweinwyr chwarae awdurdodau lleol, gofynnwyd iddynt roi manylion cyswllt Arad i ddarparwyr prosiect gwyliau Gwaith Chwarae 2021, er mwyn iddynt gysylltu ag Arad i gymryd rhan mewn cyfweiliad a rhoi adborth am eu profiad o'r prosiect. O ganlyniad, siaradodd Arad gyda phedwar darparwr chwarae gwahanol.
- 2.12 Mae arweinwyr chwarae rhai awdurdodau lleol hefyd yn cyflawni rôl darparwyr chwarae ar gyfer rhai o'r prosiectau a ariannir gan Gwaith Chwarae, felly casglwyd persbectifau darparwyr fel rhan o gyfweiliadau'r arweinwyr chwarae hefyd.

*Gwaith maes gyda theuluoedd*

- 2.13 Yn ystod cyfweiliadau gyda darparwyr gweithgarwch Gwaith Chwarae 2021, gofynnwyd iddynt roi manylion cyswllt Arad i deuluoedd a gwirfoddolwyr prosiectau, er mwyn casglu persbectifau gan fuddiolwyr Gwaith Chwarae 2021. O ganlyniad, siaradodd Arad gyda phedwar rhiant (gan gynnwys dau yr oeddent yn wirfoddolwyr hefyd) a rhoddodd un rhiant arall adborth mewn neges e-bost. Yn ogystal,

llwyddodd Arad i fynychu un sesiwn chwarae mynediad agored, gan arsylwi'r gweithgareddau, a chynhaliodd drafodaethau anffurfiol gyda rhieni a phlant a staff.

### *Nodyn am y cyfyngiadau*

- 2.14 Mae'n bwysig rhoi rhywfaint o rybudd wrth ddehongli'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn am sawl rheswm. Yn gyntaf, oherwydd y ddibyniaeth ar deuluoedd a darparwyr yn cael gwybodaeth am y gwerthusiad, ac yn cysylltu ag Arad eu hunain, dim ond nifer fach iawn o deuluoedd a darparwyr chwarae oedd wedi cymryd rhan yn y gwaith maes. Rhoddwyd sylw i'r cyfyngiad hwn ac fe'i rheolwyd trwy ddefnyddio nifer fach o astudiaethau achos er mwyn cyflwyno enghreifftiau disgrifiadol a thrwy ddefnyddio safbwyntiau rhieni a gasglwyd gan awdurdodau lleol eu hunain ac a rannwyd gydag Arad.
- 2.15 Yn ail, roedd cronfeydd mwy o faint yn cael eu darparu ar yr un pryd â Gwaith Chwarae. Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai £5 miliwn ar gael ar gyfer prosiect Haf o Hwyl er mwyn darparu amrediad o weithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol am ddim i blant a phobl ifanc 0-25 oed er mwyn helpu i gynorthwyo eu lles cymdeithasol, emosiynol, corfforol a meddyliol. Nod prosiect Gaeaf Llawn Lles oedd ceisio darparu amrediad o weithgareddau am ddim i blant a phobl ifanc hefyd. Roedd y potiau cyllid ychwanegol hyn yn golygu bod llawer yn fwy o weithgarwch chwarae wedi digwydd yn ystod 2021/22 o'i gymharu gyda blynyddoedd blaenorol, ac o'r herwydd, mae'n anodd pennu pa effeithiau a ddigwyddodd o ganlyniad i gyllid Gwaith Chwarae 2021 yn unig neu o ganlyniad i'r cynnydd o ran y cyllid yn gyffredinol.
- 2.16 Yn olaf, teimlwyd effeithiau COVID-19 a'i gyfyngiadau o hyd yn ystod 2021/22. Roedd awdurdodau lleol yn parhau i adfer o'r pandemig ac effeithiwyd ar y cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae o hyd. Roedd yr amhariad hwn ar y ddarpariaeth wedi ei gwneud hi'n anodd cymharu'r ddarpariaeth ar draws gwahanol gyfnodau er mwyn priodoli effaith Gwaith Chwarae, ac, ymhellach, roedd effeithiau COVID-19 ar les plant wedi ei gwneud hi'n anodd creu gwaelodlin er mwyn mesur effaith Gwaith Chwarae.

### 3. Darparu Gwaith Chwarae

- 3.1 Mae'r adran hon yn amlinellu sut y darparodd awdurdodau lleol gynllun Gwaith Chwarae 2021. Mae'n cynnig crynodeb o'r canllawiau a roddwyd i awdurdodau lleol ynghylch sut i ddefnyddio'r cyllid, mae'n amlinellu sut y monitryd hyn, mae'n rhoi crynodeb o'r hyn a ddarparwyd, ac mae'n cynnig rhai enghreifftiau manylach o amrywiaeth y prosiectau a ariannwyd.

#### *Rôl awdurdodau lleol*

- 3.2 Un o brif ddibenion y cyllid oedd galluogi awdurdodau lleol i gyflawni rhai o'r camau gweithredu yn eu Cynlluniau Gweithredu Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2021 – 2022, a oedd yn ymwneud â Chynlluniau darparu gwaith chwarae wedi'i staffio (gweler paragraff 1.2). Tasg awdurdodau lleol oedd darparu'r ddarpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio a rhoddwyd canllawiau iddynt am y ffordd y gallent ddefnyddio cyllid Gwaith Chwarae 2021.<sup>11</sup> Yn ôl y canllawiau, byddai modd defnyddio'r cyllid ar gyfer:

- 'Darpariaeth gwaith chwarae sy'n bodoli eisoes, fel y gwelir yn ystod y gwyliau, neu ei ymestyn er mwyn cynnig oriau ychwanegol ar benwythnosau, os oes angen
  - Yr holl gostau sy'n gysylltiedig â sefydlu a rhedeg darpariaeth gwaith chwarae, gan gynnwys staffio, rhentu neu logi lleoliad, hyfforddiant, PPE a deunyddiau glanhau
- Darpariaeth gwaith chwarae allgymorth neu sesiynau chwarae teuluol
- Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol gwaith chwarae
- Pecynnau chwarae pwrpasol i deuluoedd sy'n cynnwys plant agored i niwed
- Cyswllt gweithiwr chwarae gyda theuluoedd – gall hyn olygu gweithio gyda theuluoedd unigol a chynnwys cysylltu â nhw trwy gyfrwng technoleg fideogynadledda (face time, ac ati)
- Lleoedd mewn lleoliadau gofal plant y tu allan i oriau ysgol ar gyfer plant agored i niwed lle nad oes darpariaeth arall yn bodoli, neu bydd manteision ychwanegol gofal plant yn cael effaith arwyddocaol ar y plentyn'.

---

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru: Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae 2021/22: Canllawiau i Awdurdodau Lleol Ebrill 2021

- 3.3 Byddai modd defnyddio cyllid ar gyfer yr holl wyliau ysgol yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, yn ogystal ag ar gyfer darpariaeth dros y penwythnos yn ôl yr angen. Byddai modd defnyddio cyllid ar gyfer lleoliadau sy'n arlwyyo ar gyfer plant 0 i 17 oed, gan ganolbwyntio ar blant oedran ysgol. Byddai darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored yn cael ei thargedu mewn cymunedau agored i niwed, ond byddai modd i'r holl blant yn y gymuned fynychu.
- 3.4 Yn ogystal, gofynnwyd i awdurdodau lleol ystyried defnyddio'r cyllid er mwyn darparu ar gyfer anghenion amrywiol plant ar draws ystod oedran 0 i 17 oed, Plant sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol; plant y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt neu y maent yn mynychu ysgolion cyfrwng Gymraeg a ffactorau diwylliannol cofnodedig eraill, gan gynnwys ieithoedd eraill a phlant sipsiwn neu deithwyr.

#### *Monitro*

- 3.5 Fel rhan o ganllawiau Gwaith Chwarae 2021, gofynnwyd i awdurdodau lleol lenwi ffurflenni cynnig o leiaf bythefnos cyn pob cyfnod gwyliau. Yna, roeddent yn gallu hawlio'r cyllid ar ôl pob cyfnod gwyliau ar sail y costau a oedd wedi codi wrth ddarparu prosiectau Gwaith Chwarae 2021. Fel y soniwyd ym mhennod 2, gofynnwyd i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni monitro pan oedd prosiectau wedi cael eu cwblhau hefyd.

#### *Yr hyn a ddarparwyd: data monitro*

- 3.6 Defnyddiodd y 22 awdurdod lleol gyllid Gwaith Chwarae yn ystod 2021/22, gan ddarparu ar gyfer rhwng 85 a 2500 o blant ym mhob ardal awdurdod. Darparwyd y gweithgareddau yn ystod y gwyliau ysgol yn bennaf, a darparwyd rhai gweithgareddau ar benwythnosau ac ar ôl ysgol. Darparwyd gweithgareddau yn Gymraeg ac yn Saesneg, ynghyd ag ychydig ddarpariaeth ddwyieithog ac roedd nifer fach o leoliadau wedi cynnig darpariaeth synhwyraidd a chanu. Roedd cymysgedd o oedrannau wedi ymgysylltu â'r gweithgareddau, a'r prif grŵp oedd plant cynradd (3-11 oed), ond roedd rhai prosiectau wedi darparu ar gyfer plant a phobl ifanc o bob oed (0-17 oed).

3.7 Cynhaliwyd gweithgareddau mewn nifer o wahanol leoliadau, gan gynnwys mannau agored/parciau/coedwigoedd, lleoedd cymunedol, cyfleusterau chwaraeon, canolfannau hamdden, ysgolion a chanolfannau chwarae/teuluol/gofal plant. Mae Ffigur 3.1 yn nodi enghreifftiau o'r gwahanol fathau o weithgareddau a ariannwyd gan Gwaith Chwarae 2021.

**Ffigur 3.1: Mathau o weithgareddau chwarae a ariannwyd**

- Chwarae mynediad agored – gweithgareddau cymunedol, chwarae stryd, darparu offer chwarae, sesiynau chwaraeon, celf a chrefft.
- Pecynnau chwarae synhwyraidd
- Digwyddiadau gwerysyla
- Clybiau Calan Gaeaf a Nadolig
- Sesiynau lles
- Clybiau ar ôl ysgol
- Marciau ar leoedd chwarae
- Fan ceidwad chwarae
- Digwyddiadau teuluol
- Sesiynau aros a chwarae.

*Enghreifftiau o'r gweithgareddau a ddarparwyd*

3.8 Fel yr amlinellir uchod, ariannwyd sawl gwahanol fath o weithgareddau trwy gyfrwng Gwaith Chwarae 2021. Darparodd rhai awdurdodau y gweithgareddau yn fewnol, gan ddefnyddio gweithwyr chwarae yr oeddent eisoes yn eu tîm, neu trwy ddefnyddio'r cyllid i benodi gweithwyr chwarae newydd i ddarparu gweithgareddau yn yr ardal. Roedd eraill wedi contractio'r ddarpariaeth allan i ddarparwyr eraill fel canolfannau hamdden, cymdeithasau tai, timau cymunedol a lleoliadau gofal plant. Mae'r adran hon yn rhoi amlinelliad manylach o rai enghreifftiau o'r mathau o weithgareddau a gynhaliwyd.

*Staffio*

3.9 Adroddodd sawl awdurdod lleol eu bod wedi datblygu eu capasiti o ran staff trwy gyflogi staff gwaith chwarae. Defnyddiodd un awdurdod lleol y cyllid i gyflogi dau

weithiwr chwarae rhan-amser mewnol, yna bu modd i'r rhain hwyluso nifer o weithgareddau megis gweithgarwch chwarae mewn coedwig, diwrnodau celf a chrefft, diwrnodau hwyl i'r teulu a sesiynau mynediad agored. Dywedwyd bod y gweithgareddau hyn yn seiliedig ar chwarae gyda darnau rhydd, dan arweiniad y plant. Dewiswyd lleoliadau a phlant ar sail ardaloedd yn eu Hasesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a thrwy gyfrwng grwpiau a gwasanaethau lleol. Yn ogystal, adroddodd awdurdodau lleol eraill y defnyddiwyd yr arian i gyflogi staff gwaith chwarae dros dro, a oedd wedi darparu nifer o gyfleoedd chwarae yn yr ardal neu geidwad chwarae a fyddai'n gallu teithio i ddarparu gweithgareddau chwarae mewn ardaloedd mwy gwledig.

- 3.10 Yn ogystal, defnyddiwyd y cyllid er mwyn darparu hyfforddiant i staff chwarae, a oedd yn cynnwys diogelwch bwyd, diogelu, cymorth cyntaf ac arwyddion Makaton.

*Ariannu gweithgarwch mewn lleoliadau a oedd yn bodoli eisoes*

- 3.11 Roedd un awdurdod lleol wedi talu darparwr canolfan hamdden i gynnal gweithgareddau crefft a chwaraeon mewn wyth o ganolfannau hamdden yr awdurdod lleol yn ystod hanner tymor. Defnyddion system archebu ar-lein i rieni, a rhoddwyd blaenoriaeth i blant gydag anableddau, anghenion dysgu ychwanegol a phlant a oedd yn derbyn gofal i fynychu'r sesiynau.
- 3.12 Defnyddiodd un awdurdod lleol arall y cyllid i dalu am ddarparu sesiynau chwarae agored mewn tri lle chwarae antur. Roedd staff yn y lleoedd chwarae antur wedi cael eu hariannu trwy gyfrwng ffrydiau eraill yn flaenorol, yr oeddent wedi dod i ben, ac nid oedd yr awdurdod yn gallu cefnogi'r sesiynau mwyach. Heb gyllid Gwaith Chwarae 2021 ar gyfer staffio, roedd un arweinydd Chwarae yn yr awdurdod lleol o'r farn y byddai un o'r lleoedd chwarae antur wedi gorfod cau am eleni, ond gyda'r cyllid, bu modd i'r tri fod ar agor am oriau hirach.

*Ariannu adnoddau a phecynnau gweithgarwch*

- 3.13 Defnyddiodd un awdurdod lleol gyllid Gwaith Chwarae 2021 i ddarparu amrywiaeth o wahanol weithgareddau. Buont yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu sesiynau chwarae mynediad agored, yn ogystal â rhai sesiynau caeedig, a oedd yn cynnwys



creu cuddfannau, celf a chreffft, gemau a chwaraeon. Roedd sesiynau eraill wedi cynnwys annog chwarae teuluol hefyd, gyda'r nod o annog rhieni i ddysgu sut i chwarae gyda'u plant. Ar ddiwedd rhai o'r sesiynau hyn, bu modd i deuluoedd fynd â chwdyn gweithgarwch gartref gyda nhw er mwyn iddynt allu parhau i chwarae yn fel teulu. Esboniodd arweinwyr chwarae awdurdod lleol arall eu bod wedi prynu adnoddau ac offer at ddefnydd grwpiau cymunedol.

### *Targeddu'r ddarpariaeth chwarae*

- 3.14 Yn ogystal, roedd awdurdodau lleol wedi amrywio'r ffordd y nodwyd a thargedwyd plant er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae. Roedd rhai awdurdodau wedi nodi bylchau yn eu PSA, gan dargeddu'r gweithgarwch a ariannwyd er mwyn rhoi sylw i'r bylchau hynny, er enghraifft mewn cymunedau neu ardaloedd penodol. Yn ogystal, roedd rhai awdurdodau lleol wedi targedu plant penodol yr oedd yn hysbys eu bod yn agored i niwed, bod ganddynt anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol. Roedd gan eraill weithgareddau a oedd yn agored i bawb. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi defnyddio cyfuniad o'r dulliau gweithredu hyn, gan dargedu ardaloedd neu grwpiau penodol o blant, ond roeddent wedi ei adael yn agored i blant eraill fynychu hefyd.
- 3.15 Hysbysebwyd neu hyrwyddwyd gweithgareddau i blant a theuluoedd mewn sawl ffordd, er enghraifft trwy gyfrwng cyfryngau cymdeithasol, taflenni, cylchlythyrau, pobl yn siarad amdanynt a chyswllt trwy gyfrwng gwasanaethau cymdeithasol neu dimau eraill sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd a dargedir.

## 4. Canfyddiadau: Darparu Gwaith Chwarae 2021

4.1 Yn yr adran hon, byddwn yn trafod darpariaeth prosiect Gwaith Chwarae 2021 o ran effeithlonrwydd y prosesau gweithredol a gweinyddol, a'r hyn a oedd wedi gweithio'n dda a'r hyn nad oedd wedi gweithio'n dda ar gyfer yr awdurdodau lleol wrth ei ddarparu.

*Yr hyn a weithiodd yn dda*

4.2 **Perthynas waith:** Roedd nifer o awdurdodau lleol yn falch gyda'r berthynas waith rhyngddyn nhw a Llywodraeth Cymru, ac roedd nifer wedi canmol yr help, y cymorth a'r arweiniad a gawsant gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn benodol.

Defnyddiodd sawl arweinydd chwarae enghreifftiau o adegau lle'r oeddent yn teimlo'n ansicr am agweddau penodol ar y broses weinyddol, ond bu modd iddynt ffonio neu anfon e-bost at swyddogion Llywodraeth Cymru, yr oeddent wastad wedi ymateb yn brydlon er mwyn helpu i ddatrys y mater. Bu'r berthynas hon yn ddefnyddiol hefyd pan ystyriwyd y canllawiau ynghylch sut i ddefnyddio cyllid Gwaith Chwarae 2021, er enghraifft, roedd un awdurdod lleol yn dymuno defnyddio'r cyllid ar rywbeth ychydig yn wahanol i'r hyn a amlinellwyd yn y canllawiau, fodd bynnag, trwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, llwyddont i greu rhywbeth gyda'i gilydd, gan gadarnhau pa weithgareddau y byddai modd eu gwario dan Gwaith Chwarae.

4.3 **Canllawiau clir:** Roedd y rhan fwyaf o arweinwyr chwarae yn teimlo bod y canllawiau am yr hyn y gallent wario'r arian arno yn glir ac yn gryno. Roedd rhai wedi canmol hyblygrwydd y canllawiau hefyd, a'r hyn yr oedd modd defnyddio'r arian arno. Roedd hyn yn caniatáu i amrywiaeth o wahanol brosiectau gael eu cynnal, gan ddwyn amrediad o fanteision i blant. Soniodd dau arweinydd chwarae am hyblygrwydd yn y canllawiau hefyd, ers y gwaredwyd yr agwedd ynghylch llwgu yn ystod y gwyliau.

4.4 Soniodd un arweinydd chwarae hefyd y bu'n ddefnyddiol bod y canllawiau yn debyg i ganllawiau Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles a bod y ffaith eu bod yn teimlo'n gyfarwydd wedi helpu i reoli'r gwahanol gronfeydd.

- 4.5 **Cyflwyno ffurflenni monitro/cynnig:** Roedd sawl un o'r arweinwyr chwarae o'r farn bod y porth ar-lein a ddefnyddiwyd wrth weinyddu cyllid Gwaith Chwarae 2021 yn syml i'w ddefnyddio. Soniodd un arweinydd chwarae am fantais cael popeth mewn un man. Roedd dau arweinydd chwarae yn teimlo hefyd bod y ffurflenni monitro a chynnig a lanwyd ar blatfform ar-lein Smartsurvey yn hawdd i'w llenwi.
- 4.6 **Argaeledd cronfeydd ychwanegol:** Mynegodd rhan fwyaf yr arweinwyr chwarae eu bod yn ddiolchgar eu bod wedi cael cyllid Gwaith Chwarae 2021, nid yn unig o ystyried y buddion a'r effeithiau y mae wedi'u dwyn i blant a theuluoedd (trafodir hyn yn fanylach ym mhennod 5), ond soniodd rhai am y manteision o ran lleddfu'r faich wrth gynnig darpariaeth chwarae hefyd. Roedd y ffaith bod mwy o gyllid ar gael yn golygu y gallent gael mwy o hyblygrwydd wrth ddarparu rhai prosiectau, er enghraifft trwy gyfuno potiau ariannu, ehangu prosiectau ac ystyried gweithgareddau newydd a meysydd newydd/gwahanol. Yn ogystal, roedd y cyllid ychwanegol wedi eu galluogi i feithrin perthnasoedd gyda sectorau neu sefydliadau eraill, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar gynnig darpariaeth chwarae yn gyffredinol (trafodir hyn yn fanylach ym mhennod 5). Roedd un arweinydd chwarae yn teimlo bod y pwysau arnynt i ddarparu yn enfawr, felly mae unrhyw gyllid ychwanegol wastad yn bwysig ac yn cael ei groesawu.

#### *Meysydd i'w gwella*

- 4.7 **Cronfeydd sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd:** Er bod awdurdodau lleol yn ddiolchgar am yr holl gyllid a oedd yn ceisio cynnig mwy o gyfleoedd chwarae, roedd nifer yn teimlo'r faich o gael gwahanol botiau o gyllid ar yr un pryd, ac yn aml ar fyr rybudd (sef Hwyl o Haf a Gaeaf Llawn Lles). Daeth rhan o'r faich ychwanegol hon ar ffurf gwaith gweinyddol gormodol. Yn ystod y gweithdy grŵp, disgrifiodd un arweinydd chwarae eu bod yn teimlo fel pe baent wedi treulio'r flwyddyn gyfan yn cyflwyno ceisiadau, cynigion, ffurflenni monitro ac arolygon deallus. Roedd hwn yn deimlad a adleisiwyd gan nifer o arweinwyr chwarae a'u timau, yr oeddent yn teimlo hefyd bod y ffurfiau gwahanol niferus ar y gwaith papur ar gyfer y gwahanol ffrydiau cyllid yn peri cryn ddryswch a'u bod yn teimlo ei bod yn anodd cadw golwg ar yr hyn a oedd yn dod i mewn o wahanol botiau a'u gofynion gwahanol. Roedd rhai yn ei chael hi'n anodd gwahaniaethu rhwng gwybodaeth a gawsant gan bob ffrwd gyllid a

gwybodaeth a gollwyd o ganlyniad. Yn ystod cyfweiliadau gydag arweinwyr chwarae, nododd Arad bod rhai wedi sôn am y gwahanol ffrydiau cyllid fel petaent yn gyfystyr â'i gilydd, neu erbyn y cyfweiliad, roeddent wedi anghofio pa ffrwd cyllid oedd wedi talu am ba weithgarwch, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd gwahaniaethu rhwng yr hyn a ariannwyd gan Gwaith Chwarae 2021 a'r potiau cyllid eraill.

- 4.8 Mater arall a godwyd mewn perthynas â ffrydiau cyllid yn cystadlu yn erbyn ei gilydd oedd y capasiti gwirioneddol i ddarparu a gwario'r holl arian sydd ar gael. Roedd sawl arweinydd chwarae yn teimlo eu bod wedi cael gormod o arian ar yr un pryd, heb fod yn meddu ar y staff, y timau chwarae neu'r contractwyr allanol i ddarparu'r prosiectau. Roedd rhai yn teimlo y bu'n rhaid iddynt 'daflu arian' at unrhyw sefydliadau a oedd ar gael, heb allu rhoi ystyriaeth gywir i'r ffordd orau o wario'r arian.

'Mae'n anodd ceisio manteisio i'r eithaf ar y grant gan nad ydym yn dymuno ei anfon yn ôl i Lywodraeth Cymru ac iddyn nhw feddwl nad oes ei angen arnom....gallem fod wedi gwneud llawer mwy gydag arian [Gwaith Chwarae] pe na bai ganddynt gymaint o arian arall. Mae'r gwaith o weinyddu'r holl arian yn sylweddol iawn.' (Cyfweiliad gydag arweinydd chwarae awdurdod lleol)

- 4.9 Roedd nifer o'r arweinwyr chwarae a gyfwelwyd yn teimlo bod ffrydiau cyllid mwy o faint (Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Llesiant) ar gael ar yr un pryd, ac roedd yn ymddangos bod hyn yn bwrw cyllid Gwaith Chwarae 2021 i'r cysgod. Esboniodd arweinwyr chwarae nad oeddent wedi cael fawr iawn o rybudd am gynlluniau Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles, ac y bu'r gwaith o gynllunio a chomisiynu prosiectau ar gyfer y cynlluniau hynny yn 'ychydig o ruthr gwylt', a oedd wedi eu cadw'n brysur. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi canolbwyntio yn fwy ar ddarparu prosiectau trwy'r ffrydiau cyllid mwy o faint er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio, a'u bod wedi defnyddio Gwaith Chwarae 2021 er mwyn 'llyncu arian' o'r cyllid arall neu er mwyn ei ychwanegu i'r cyllid. Yn wir, nid oedd rhai awdurdodau lleol wedi dychwelyd i gomisiynu neu ddarparu gweithgareddau a ariannwyd gan Waith Chwarae tan ddiwedd y flwyddyn ariannu, sef hanner tymor Chwefror 2022.

- 4.10 Oherwydd y materion hyn, roedd nifer o arweinwyr chwarae o'r farn y byddai o gymorth pe bai modd i'r holl arian ddod o un pot, fel y byddai modd symleiddio'r

gwaith papur yn y dyfodol. Byddai hyn hefyd yn eu helpu i gynllunio mewn ffordd effeithiol sut i ddarparu'r cyllid yn y dyfodol.

- 4.11 **Mae angen mwy o rybudd:** Yn ogystal, roedd arweinwyr chwarae yn teimlo bod angen rhoi mwy o rybudd am y ffaith y bydd cyllid ar gael, yn enwedig yng nghydestun y ffaith bod yn rhaid cynllunio am wahanol ffrydiau cyllido yn barod, fel yr amlinellwyd uchod. Roeddent yn teimlo hefyd bod angen i'r argaeledd a maen prawf unrhyw gyllid fod ar gael gyda digon o rybudd, fel y gallant gynllunio ar gyfer y dyfodol mewn ffordd effeithiol a bwrw ymlaen gyda phrosiectau a gweithgareddau. Er enghraifft, nododd un arweinydd chwarae y byddai hyn yn ddefnyddiol er mwyn iddynt allu peilota prosiectau yn gynaf er mwyn helpu gyda chynladwyedd, yn hytrach na cholli arian ar y funud olaf a gorfod dewis pa ddarpariaeth bynnag oedd ar gael. Byddai cael mwy o rybudd yn galluogi awdurdodau i benodi aelodau o staff perthnasol hefyd os byddant yn cael rhybudd am gyllid.

'Un o fy ofnau mwyaf yw bod gennyf i weithwyr chwarae mor dda sy'n wych, ac rydw i'n dymuno cynnig sicrwydd iddynt bod y swydd yno ar eu cyfer, ynghyd â lefel y cyllid ar gyfer y swydd honno.' (Trafodaeth grŵp arweinwyr chwarae awdurdodau lleol)

- 4.12 Adeg y cyfwelwyd awdurdodau lleol, mae'n bwysig nodi nad oedd rhan fwyaf yr arweinwyr chwarae wedi cael cadarnhad eto a fyddai'r cyllid yn parhau yn 2022-23. Felly, mae nifer o'r sylwadau hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa ar y pryd, a'r ffaith na allent gynllunio ar gyfer y tymor hir o hyd. Fodd bynnag, cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 y bydd y cyllid yn parhau, ac adeg ysgrifennu hwn (haf 2022), mae awdurdodau lleol wedi dechrau darparu ail flwyddyn Gwaith Chwarae.
- 4.13 **Materion gweinyddol eraill:** Er bod arweinwyr chwarae awdurdodau lleol wedi canmol y berthynas waith dda a pha mor hawdd yw hi i droi at Lywodraeth Cymru, mynegwyd rhai materion ynghylch y **gofynion monitro**. Ar y cyfan, roedd y rhain yn gwynion a gyfeiriwyd at gynlluniau Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles, lle y bu rhai newidiadau yn y gofynion monitro yn ystod oes y rhaglenni. Fodd bynnag, wrth godi'r materion hyn am y grantiau eraill, daeth yn amlwg bod awdurdodau lleol yn awyddus i sicrhau bod unrhyw ofynion monitro a gwerthuso yn cael eu symleiddio gymaint ag y bo modd, i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol yn unig, ac er mwyn

cydnabod bod y gofyniad am wybodaeth am broffil plant sy'n mynychu yn gallu rhwystro chwarae mynediad agored.

- 4.14 Gan fwrw golwg ymlaen, roedd rhai o'r awdurdodau lleol yn bwriadu adolygu gweinyddiaeth Gwaith Chwarae 2021 law yn llaw gyda gweinyddiaeth grantiau eraill, fel y byddai modd dwyn staff parhaol i mewn er mwyn lleihau'r faich o reoli darpariaeth chwarae a ariannir.
- 4.15 **Newid o lwgu yn ystod y gwyliau:** Mater pellach a godwyd gan nifer fach o arweinwyr chwarae oedd y ffaith bod y newid yng ngofynion y cyllid o'r rhai Llwg yn ystod y Gwyliau i Gwaith Chwarae 2021 yn peri dryswch. Nid oedd pawb yn rhannu'r un farn, ac roedd rhai yn teimlo bod newid o lwgu yn ystod y gwyliau wedi symleiddio pethau. Mae hyn yn dod dan y thema gyffredinol ei bod yn gallu bod yn anodd i awdurdodau pan fydd disgwyliadau yn newid hanner ffordd trwy rhaglen, os bydd gwybodaeth yn dod i mewn ar y funud olaf neu os bydd gofynion yn newid.
- 4.16 **Staffio:** Nododd arweinwyr chwarae bod sialensiau wrth fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gyllid ar gyfer chwarae, sef her barhaus **recrwtio, hyfforddi a chadw staff** yn bennaf. Esboniodd arweinwyr chwarae a darparwyr chwarae bod hon yn broblem sy'n effeithio ar y sector cyfan yn gynyddol, a'i bod yn broblem ehangach na phroblem i brosiectau a ariannir gan Gwaith Chwarae yn unig, a bod pandemig COVID-19 wedi ei gwaethygu.
- 4.17 Esboniodd arweinwyr chwarae awdurdodau lleol bod gwaith chwarae yn aml yn waith dros dro ac yn aml yn waith gyda chontractau oriau rhan-amser a/neu ddim oriau gan bod yn rhaid recrwtio staff am gyfnodau byrrach dros y gwyliau neu am nifer fach o oriau ar ôl ysgol. Pan fyddant yn cael cyllid dros dro, byddant yn penodi staff, a phan fydd y cyllid yn dod i ben, rhaid i dîm yr awdurdod lleol ryddhau'r gweithwyr chwarae. Mae nifer o awdurdodau lleol yn defnyddio gwirfoddolwyr, ac er bod hyn fel arfer yn brofiad cadarnhaol i bawb dan sylw, nid yw heb ei broblemau: mae gweithio gyda gwirfoddolwyr yn cymryd cryn amser, mae angen datblygu'r cynlluniau gwirfoddoli dros flynyddoedd; mae angen staff cyflogedig o hyd, ac mae COVID-19 wedi effeithio ar gyflenwad gwirfoddolwyr.
- 4.18 Yn gysylltiedig â'r materion a godwyd ynghylch gweinyddu nifer o wahanol ffrydiau cyllid, mynegwyd pryderon am allu y sector chwarae ehangach, cwmnïau preifat a

sefydliadau yn y trydydd sector o fod yn gallu darparu. Roedd rhai awdurdodau lleol yn teimlo eu bod yn troi at y nifer fach o ddarparwyr am y gwahanol gronfeydd, ac mai'r rhain yw'r un darparwyr sy'n gweithio gyda'u hawdurdodau lleol. Roeddent, fodd bynnag, yn obeithiol y byddai'r cyllid uwch ar gyfer chwarae yn gwella capasiti y sector.

## 5. Canfyddiadau: Gwaith Chwarae 2021 yn gwneud gwahaniaeth i blant a theuluoedd

5.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r dystiolaeth a gasglwyd yn bennaf trwy gyfrwng cyfweiliadau ffôn gydag arweinwyr chwarae awdurdodau lleol, staff a fu'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu gweithgareddau a ariannwyd gan Gwaith Chwarae 2021 a theuluoedd a fu'n cymryd rhan. Mae'n nodi'r rhesymau dros fynychu'r gweithgareddau a ariannwyd gan Gwaith Chwarae, manteision mynychu darpariaeth gwaith chwarae o bersbectif plant a phobl ifanc, eu teuluoedd ac arsylwadau gweithwyr chwarae.

### *Buddion bwriadedig*

5.2 Mae canllawiau Gwaith Chwarae 2021 i awdurdodau lleol yn nodi mai nod y prosiect yw cynnig cyfleoedd chwarae gwell i blant mewn cymunedau agored i niwed a gwireddu manteision hyn o ran datblygiad plant a'u lefelau gweithgarwch, a bod angen hyn yn arbennig ar yr adeg hon gan bod cyfyngiadau pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar hawl plant i chwarae.<sup>12</sup> Mae'n mynd ymlaen i nodi bod chwarae 'yn elfen hanfodol yn natblygiad plant ac yn rhywbeth sy'n gallu cynnig ffactor diogelu cryf ym mywydau plant.' Mae chwarae yn helpu plant i feithrin eu hadnoddau mewnol a datblygu cydnerthedd yn wyneb anawsterau ac ansicrwydd yn eu cartref ac mewn rhannau eraill o'u bywyd. Felly, cynigiwyd y byddai newid ffocws prosiect Llwg yn ystod y Gwyliu i ganolbwyntio ar ddarpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio yn helpu plant a phobl ifanc sy'n dioddef oherwydd canlyniadau pandemig y Coronafeirws. Mae'r canllawiau yn nodi ymhellach:

---

<sup>12</sup> Prosiect Gwyliu Gwaith Chwarae 2021/22: Canllawiau i Awdurdodau Lleol. Ebrill 2021 (Heb ei gyhoeddi)



## Ffigur 5.1: Buddion bwriadedig Gwaith Chwarae 2102

### PRIF FUDD:

Chwarae mwy cyfoethog, sydd ar gael am ddim wrth y pwynt mynediad, a phrofiadau mwy cadarnhaol

- Cymdeithasu
- Bod yn egniol
- Cael hwyl / bod yn hapus
- Dysgu rhywbeth newydd.

Mae'r prosiect yn cynnig buddion ychwanegol hefyd, wrth gynorthwyo cynladwyedd lleoliadau gwaith chwarae a chynorthwyo rhieni, teuluoedd a chymunedau.

### BUDDION YCHWANEGOL

- Gwella apêl lleoliadau
- Cynorthwyo cynladwyedd lleoliadau
- Cynnig seibiant i rieni / gofalwyr a / neu ofal plant

Ffynhonnell: Canllawiau Gwaith Chwarae 2021 ar gyfer awdurdodau lleol

### *Gwneud gwahaniaeth i ddarparu chwarae*

- 5.3 Adroddodd awdurdodau lleol bod cael cronfeydd ychwanegol wedi eu galluogi i gynnig **mwy o weithgareddau** a sesiynau chwarae nag y byddent wedi gallu gwneud fel arall. Adroddont eu bod wedi gallu darparu rhagor o weithgareddau yn ystod y gwyliau ysgol o'i gymharu gyda'r cyfnod cyn Gwaith Chwarae 2021, i ddarparu sesiynau chwarae mewn nifer yn fwy o gymunedau, i gynnig cynlluniau ar adegau o'r flwyddyn am y tro cyntaf (e.e., dros y Nadolig) a chynyddu nifer y sesiynau a gynigir mewn cynlluniau sefydledig.
- 5.4 Esboniodd sawl un o'r arweinwyr chwarae a gyfwelwyd eu bod wedi darparu neu gomisiynu chwarae **mewn cymunedau lle na fu unrhyw ddarpariaeth chwarae yn flaenorol**. Esboniodd un arweinydd chwarae awdurdod lleol mewn sir sy'n sir wledig ar y cyfan, bod rhan fwyaf y gweithgareddau a'r digwyddiadau wedi cael eu cynnig yn ei phrif drefi yn flaenorol, ond diolch i gyllid Gwaith Chwarae 2021, bu modd iddynt gynnal sesiynau mewn ardaloedd mwy gwledig, gan gyrraedd plant mewn cymunedau na chawsant eu gwasanaethu yn flaenorol.

- 5.5 Wrth ddarparu mwy o sesiynau mewn rhagor o gymunedau, adroddodd arweinwyr chwarae yr awdurdodau lleol eu bod wedi **cyrraedd teuluoedd newydd** trwy gyfrwng cyllid Gwaith Chwarae 2021.
- 5.6 Roedd nifer o awdurdodau lleol wedi defnyddio'r cyllid i gynnal sesiynau chwarae ar gyfer plant **anabl**. Esboniodd arweinwyr chwarae nad oedd y gweithgareddau a'r digwyddiadau a gynhaliwyd hyd yn hyn yn ddigonol wrth fodloni anghenion chwarae plant a phobl ifanc anabl a bod nifer o awdurdodau lleol wedi defnyddio'r cyllid er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, gan gomisiynu neu ddarparu cyfleoedd ychwanegol i'r plant hyn yn uniongyrchol.
- 'Mae'r cyllid wedi caniatáu i ni brynu cymorth arbenigol i weithio gyda phlant sydd ag anableddau. Nid ydym wedi gallu gwneud hyn yn y gorffennol. Felly mae'r cyllid wedi caniatáu i'r plant hyn fynychu fel y mae plant arall yn gwneud' (Cyfweliad gydag Arweinydd chwarae awdurdod lleol).
- 5.7 Mewn rhai awdurdodau lleol, Gwaith Chwarae 2021 oedd yr ysgogiad iddynt sefydlu neu **ehangu eu tîm chwarae**. Esboniodd un arweinydd chwarae awdurdod lleol bod un aelod o staff yn gweithio ar chwarae – ymhlith cyfrifoldebau eraill – cyn Gwaith Chwarae 2021 (a'r cyllid arall ar gyfer chwarae yn ystod 2021/22), ond bellach, maent wedi 'sefydlu gwasanaeth chwarae llawn' ac maent yn gallu cynnig sesiynau chwarae mynediad agored. Esboniodd arweinydd chwarae awdurdod lleol arall y buont yn ddibynnol iawn ar wirfoddolwyr chwarae a chomisiynu partneriaid allanol i ddarparu gwasanaethau chwarae. Roeddent wedi defnyddio cyllid Gwaith Chwarae 2021 i gyflogi dau aelod o staff rhan-amser i gynnal sesiynau chwarae sy'n cael eu rhedeg yn fewnol, ac roeddent o'r farn bod hyn wedi cynnig budd iddynt gan bod 'comisiynu yn ddrytach fel arfer'. Pan gadarnhawyd y cyllid ar gyfer 2022/23, llwyddont i ymestyn y swydd tan fis Mawrth 2023 a 'themlo eu bod yn gallu symud ymlaen gyda chwarae nawr'.
- 5.8 Adroddwyd bod y cyllid wedi helpu i **sefydlu partneriaethau newydd**, a chryfhau partneriaethau gyda'r trydydd sector a gyda darparwyr preifat. Gan bod cronfeydd ar gael, gallai'r awdurdodau lleol gysylltu â darparwyr chwarae ond hefyd, roedd y cyllid 'wedi annog mwy o draws-weithio', gan gydweithio'n agosach gyda'r heddlu a gwasanaethau eraill a chynghorau cymuned.

'Wedi gweithio gyda nifer yn fwy o sefydliadau chwarae nag o'r blaen oherwydd bod y cyllid yno.' (Arweinydd chwarae awdurdod lleol)

- 5.9 Mae wedi galluogi rhai timau chwarae i **gryfhau'r cysylltiadau gydag adrannau eraill yr awdurdod lleol** megis cydweithwyr sy'n arwain ar gymorth i deuluoedd, gwaith ieuenctid ac anabledd plant. Fodd bynnag, nodwyd ei bod yn ddyddiau cynnar o ran meithrin y cysylltiadau ar draws adrannau er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd gyda darpariaeth arall.
- 5.10 Esboniodd sawl awdurdod lleol bod y cyllid wedi cyfrannu at **godi** proffil chwarae, yn yr awdurdod lleol, ymhlith partneriaid ac yn y cymunedau. Roedd un awdurdod lleol wedi defnyddio ei gyllid i godi proffil chwarae mewn ffordd fwriadol, ac roedd wedi gwario rhywfaint o'r cronfeydd ar nwyddau hyrwyddo a digwyddiadau unigol.
- 5.11 At ei gilydd, roedd y gweithgareddau (sesiynau chwarae, digwyddiadau, hyfforddiant) a ariannwyd gan Gwaith Chwarae 2021 yn rhai newydd. Er ei bod yn anodd amcangyfrif y gwir ychwanegedd, pan ofynnwyd hyn yn ystod y drafodaeth grŵp, roedd sawl awdurdod lleol yn bendant eu bod wedi cynnig cyfleoedd chwarae newydd i blant newydd na fyddent wedi digwydd fel arall. Trwy ddarparu chwarae mewn cymunedau newydd a chael cyswllt gyda phartneriaid newydd, dywedodd un arweinydd chwarae awdurdod lleol bod ganddynt well dealltwriaeth o chwarae ar draws y sir nawr.

#### *Gwneud gwahaniaeth i'r darparwyr chwarae*

- 5.12 Gofynnwyd i ddarparwyr prosiectau Gwaith Chwarae (gan gynnwys gweithwyr chwarae a gyflogir gan yr awdurdodau lleol) a oedd cael y cyllid wedi gwneud gwahaniaeth i'w ffyrdd o weithio ac iddyn nhw fel sefydliadau. Rhannwyd sawl enghraifft yn ystod eu cyfweiliadau am y prif fudd i'w prosiect neu eu sefydliad.
- 5.13 Llwyddodd sefydliad sy'n darparu'r prosiect chwarae stryd yn Sir Gaerfyrddin i brofi ffyrdd newydd o weithio (gweler yr astudiaeth achos, tudalen 31). Roeddent wedi trin y flwyddyn gyntaf fel peilot, gan ddysgu gwersi am y ffordd o farchnata ac ymgysylltu â'r gymuned. Adeg y cyfweiliadau, roeddent yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i gynnig darpariaeth mewn ail gymuned nawr.

5.14 Roedd rhai darparwyr ac awdurdodau lleol yn credu eu bod wedi gwella'r hygyrchedd a'r cynwysoldeb i blant anabl: Esboniodd un darparwr (gweler yr astudiaeth achos, isod) – canolfan hamdden – eu bod wedi gallu gweithredu rhai o'r nodau yn eu cynlluniau anabledd am y tro cyntaf. Nid yn unig yr oeddent wedi cynnig sesiynau a oedd yn targedu plant anabl yn enwedig am y tro cyntaf, ond roeddent wedi mynd ymlaen i osod goleuadau ac offer chwarae arbenigol a fyddai'n addas i'r grŵp o blant a oedd yn mynychu'r sesiynau chwarae. Roedd hyn yn enghraifft o gyllid Gwaith Chwarae yn **datgloi cyllid arall**. Ar ôl iddynt gychwyn sesiynau ar gyfer plant anabl, esboniodd y darparwr bod y bartneriaeth leol rhwng yr awdurdod lleol ac iechyd, sy'n gweithio gyda phlant anabl, wedi cefnogi'r prosiect hefyd, gan dalu am offer chwarae. Roedd y bartneriaeth wedi cynnig budd hefyd gan bod modd i'w gweithwyr ymweld â rhieni a chyfarfod rhieni pan fyddant yn mynychu'r sesiynau nawr.

## Astudiaeth Achos Darparwr: Byw'n Iach, Gwynedd

### *Cefndir*

Defnyddiwyd rhywfaint o gyllid Gwaith Chwarae 2021 yng Ngwynedd gan 'Byw'n Iach', gwasanaeth hamdden y sir, er mwyn darparu sesiynau chwarae ar foreau Sadwrn i blant anabl.

### *Prosiect Gwaith Chwarae 2021*

Daeth y ddarpariaeth i fodolaeth yn dilyn sgwrs rhwng aelod o staff y ganolfan hamdden a mam a oedd yn mynychu dosbarth ffitrwydd. Esboniodd y fam bod gan ei phlentyn anghenion arbennig ac nad oedd yn teimlo'n gyffyrddus i fynychu'r sesiynau chwarae meddal mynediad agored. Dywedodd y fam ei bod yn dymuno gweld sesiwn i blant sydd ag anghenion arbennig yn unig, ac esboniodd ymhellach, er y cynigir rhai gweithgareddau chwarae yn y sir y gallai ei phlentyn eu mynychu, eu bod gryn bellter i ffwrdd. Arweiniodd hyn at drafodaeth yn y ganolfan hamdden, yna trafodaeth bellach gyda'r awdurdod lleol sy'n contractio'r ganolfan hamdden. Arweiniodd hyn at yr awdurdod lleol yn talu am sesiynau ar wahân ar gyfer plant sydd ag anghenion arbennig, gan ddefnyddio cyllid Gwaith Chwarae 2021. Cynhelir y sesiynau unwaith y mis yn y ganolfan hamdden ac ni chodir tâl am eu mynychu. Mae'r awdurdod lleol a grŵp y ganolfan hamdden yn bwriadu ymestyn y sesiynau arbennig am ddim i ganolfannau hamdden mewn ardaloedd eraill nawr.

- 5.15 Roedd y darparwyr a gyfwelwyd, a nifer o awdurdodau lleol, o'r farn bod cronfeydd cymharol fach Gwaith Chwarae 2021 wedi galluogi defnydd gwell o wariant cyfalaf blaenorol a wnaethpwyd ar gyfleusterau hamdden, offer chwarae ac ati.
- 5.16 Wrth weithio gyda phlant newydd a chymunedau newydd, bu modd i'r darparwyr a'r awdurdodau lleol ddysgu yr hyn sy'n gweithio ar gyfer grwpiau gwahanol o blant mewn gwahanol gymunedau, er enghraifft dysgu nad yw sesiynau cyhoeddus agored yn gweithio i rai grwpiau o blant sydd ag anghenion ychwanegol neu ddeall pa leoliadau yw'r rhai mwyaf addas.

*Gwneud gwahaniaeth i blant a theuluoedd*

- 5.17 Roedd nifer fach y rhieni a gyfwelwyd wedi clywed am y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgarwch Gwaith Chwarae 2021 trwy gyfrwng cysylltiadau a oedd yn bodoli eisoes neu ar ôl i'w plentyn fynychu gweithgarwch gan y darparwr chwarae yn flaenorol. Er enghraifft, roedd trefnwyr clwb gweithgarwch gwyliau i blant, a oedd eisoes yn cynnig clybiau ar ôl ysgol, wedi defnyddio'r un dulliau (cyfryngau cymdeithasol, cyswllt trwy gyfrwng negeseuon e-bost gyda rhieni ar restr bostio, eitem mewn cylchlythyr ysgol) i roi gwybod i bobl am gyfle Gwaith Chwarae 2021 yn ystod y gwyliau.
- 5.18 Roedd rhesymau teuluoedd dros gymryd rhan yn amrywio yn ôl y math o weithgarwch a'i darged. Un o'r prif resymau a ddyfynnwyd gan rieni, ac a gasglwyd mewn adborth gan y darparwyr a'r arweinwyr chwarae, oedd bod teuluoedd wedi dewis cymryd rhan er mwyn cynnig cyfleoedd i'w plentyn gymdeithasu a chwarae gyda phlant arall ar ôl methu manteisio ar y cyfleoedd hynny yn ystod y cyfnod clo. Y cyfle i gynorthwyo defnydd y plentyn o'r Gymraeg trwy gynnig mwy o gyswllt iddynt gyda Chymraeg anffurfiol oedd y prif reswm a nodwyd gan riant a oedd wedi defnyddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd y plentyn mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ac nid oedd ei rhieni yn siarad Cymraeg, ac roedd y rhiant yn teimlo bod sgiliau ieithyddol y plentyn wedi gwaethygu yn ystod y cyfnod clo.
- 5.19 Bu'r adborth gan rieni – a gyfwelwyd yn uniongyrchol fel rhan o'r gwerthusiad ac mewn adborth i'r darparwyr a'r arweinwyr chwarae – yn gadarnhaol. Roeddent yn

croesawu'r cyfle i'w plant gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog, ac adroddont ei fod yn brofiad cadarnhaol i'w plentyn.

'Rydym yn falch iawn gyda chlwb [ ]. Mae'n dwyn llawenydd mawr i'n Plentyn maeth. Mae'n drueni na fyddai'n cael ei redeg am gyfnodau hwy yn ystod y gwyliau.' (Neges e-bost gan riant)

Esboniodd un rhiant bod gan eu mab 'anghenion cymhleth ac mae'n gallu bod yn llafurus...mae'r grŵp yn cynnig seibiant ...ac mae'n hyfryd ar ôl y cyfnod clo.' Dywedodd hefyd bod y mab yn dwli bod yno ac mae'n gwneud 'gwahaniaeth enfawr' iddyn nhw fel teulu. Aeth y fam ymlaen i esbonio bod 'y staff yn wych ac yn dal ei law wrth wneud pethau, chwarae blêr, paentio, mynd allan i gerdded, pethau na fydd wastad amser ganddi hi i'w gwneud'. Esboniodd y fam hefyd mai'r anfantais yw bod yn rhaid iddynt deithio hanner awr bob ffordd i gyrraedd y grŵp a 'bod prinder go iawn o ran lleoedd yn y sesiynau gwyliau – rhaid i chi archebu yn syth pan fyddant yn anfon neges e-bost amdano'. Esboniodd y fam hefyd ei bod yn defnyddio'r sesiynau ddwywaith yr wythnos yn unig gan ei bod yn ymwybodol o'r ffaith bod angen y gwasanaeth ar deuluoedd eraill (Cyfweiliad gyda rhiant).

- 5.20 Yn ogystal, cyfeiriodd rhai darparwyr ac arweinwyr chwarae at y seibiant a gynigir i rieni, a bod hwn yn un budd mawr a gynigir gan y cyllid. Disgrifiodd un arweinydd chwarae sut yr oedd wedi atal rhai teuluoedd rhag wynebu argyfwng, gan gynnig seibiant i blant o fywydau anodd yn y cartref, a chynnig hoe i rieni. Bu modd i rai rhieni a oedd wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau ddysgu sgiliau newydd hefyd a dysgu sut i chwarae gyda'u plant mewn ffordd effeithiol, ac roedd arweinwyr chwarae a darparwyr yn obeithiol bod hyn wedi parhau yn eu bywyd yn y cartref.
- 5.21 Arsylwodd darparwyr gwaith chwarae fuddion eraill i les rhieni a phlant hefyd. Cyfeiriodd un darparwr sesiynau chwarae ar gyfer plant anabl at enghraifft rhiant plentyn anabl a oedd yn dioddef rhai problemau iechyd meddwl ac nad oedd yn gadael y cartref yn aml, ond ar ôl mynychu'r sesiynau chwarae, aeth ymlaen i gofrestru ar gyfer dosbarthiadau ffitrwydd yn yr un lleoliad a bod y plant eraill wedi dechrau defnyddio'r cyfleusterau hefyd, a mynychu sesiynau eraill. Esboniodd yr un darparwr eu bod wedi arsylwi nad oes gan rieni plant sy'n mynychu ysgolion arbennig yr un cyfleoedd i gyfarfod wrth gât yr ysgol a chymdeithasu gyda rhieni eraill yr ysgol fel arfer (gan bod y plant yn cael trafndiaeth i fynychu ysgolion y

maent gryn bellter o'u cartref). Mae'r sesiynau ar y penwythnos a ariannwyd gan Gwaith Chwarae wedi cynnig rhai cyfleoedd i gyfarfod ac wedi cynnig y cyfle i rieni gael cymorth anffurfiol nad oeddent yn ei gael yn flaenorol.

- 5.22 Pwysleisiodd nifer o arweinwyr chwarae, darparwyr a rhieni yr effaith y mae cyllid Gwaith Chwarae 2021 wedi ei chael ar blant ar ôl y pandemig. Fel y soniwyd yn flaenorol, arweiniodd y cyfyngiadau a orfodwyd yn ystod y pandemig at ddiffyg cymdeithasu a rhyngweithio ymhlith plant. Fodd bynnag, mae'r cyllid Gwaith Chwarae ychwanegol wedi galluogi awdurdodau i ddarparu cyfleoedd ychwanegol i blant a oedd wedi colli allan yn ystod y pandemig, i gymdeithasu gyda phlant arall unwaith eto. Roedd nifer yn teimlo bod hyn wedi bod yn hynod werthfawr a'i fod wedi helpu plant gyda'u hyder a'u sgiliau cymdeithasol, gan ganiatáu i blant gael hwyl unwaith eto ar ôl ychydig flynyddoedd anodd. Cafwyd sawl adroddiad a oedd yn sôn bod plant wedi mwynhau'r gweithgareddau a ddarparwyd trwy Gwaith Chwarae gymaint.
- 5.23 Soniodd rhai o'r awdurdodau lleol (gan gynnwys yr astudiaeth achos ar dudalen 31) am fudd ychwanegol hefyd, sef bod ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi lleihau yn yr ardal lle y darparwyd y gweithgareddau. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r ffaith bod plant yn 'teimlo'n llai diflas', yn ogystal â'r ffaith bod mwy o gyfrifoldeb arnynt trwy'r gweithgareddau.
- 5.24 Nododd darparwyr ac arweinwyr chwarae awdurdodau lleol bod y buddion hyn wedi cael eu sicrhau gan ddefnyddio symiau ariannol cymharol fach.

## **Astudiaeth Achos Darparwr: Street Play, Sir Gaerfyrddin**

### ***Cefndir***

Neilltuodd Cyngor Sir Gaerfyrddin rywfaint o'r cyllid i sefydliad o'r enw People Speak Up (PSU) er mwyn cynnal sesiynau chwarae stryd ar gyfer y gymuned fwyaf ddifreintiedig yn Llanelli.

### ***Disgrifiad***

Mae arweinwyr o PSU yn darparu gweithgareddau i blant ac yn cynnig lle diogel iddynt chwarae yn yr awyr agored. Bydd plant yn cyrraedd bob wythnos ac yn penderfynu ar yr hyn y maent yn teimlo fel chwarae gydag ef ar y diwrnod. Cynhelir y sesiynau bob bore dydd Sadwrn mewn parc yn yr ardal. Mynychodd Arad un o'r sesiynau chwarae stryd. Yn ystod y sesiwn hon, daeth 10-12 o blant a phobl ifanc tua 6-17 oed i'r sesiwn. Nid oedd unrhyw rieni yn bresennol gyda'r plant yn y lle cyntaf, ac eithrio arweinydd PSU, a oedd wedi dod â'i ddau fab gydag ef. Yn ystod y sesiwn, aeth rhan fwyaf y plant i'r parc i chwarae, a bu'r bobl ifanc yn eu goruchwylio ac yn chwarae gyda nhw. Bu rhai yn chwarae gyda ffrisbi, pêl-droed, gemau dal, bowls ac yn tynnu lluniau ar y palmant gan ddefnyddio sialc hefyd. Yn ôl yr arweinydd, maent yn cyflawni ystod eang o weithgareddau ac mae'n amrywio bob wythnos.

### ***Adborth gan riant/arweinydd PSU***

'Roedd [fy mhlentyn 12 oed] yn swil iawn, ond mae mynychu'r sesiynau hyn wedi ei dynnu allan o'i gragen yn sylweddol, ac mae wedi gwneud lles iddo. Bellach, mae'n llawer mwy hyderus ac mae'n cael y cyfle i ymgysylltu gyda nifer fawr o wahanol blant a phobl ifanc trwy gyfrwng y sesiynau hyn.'

### ***Adborth gan staff y sesiwn yn PSU***

Mae'r plant yn mwynhau gallu chwarae y tu allan ac mae'n cynnig diogelwch iddynt wneud hynny. Mae gan rai anableddau, mae eraill mewn sefyllfa lle nad yw'r rhieni yn gallu cynnig lle neu weithgarwch ymgysylltu er mwyn i'r plant chwarae. Mae'r sesiynau chwarae stryd yn cynnig cyfle i'r plant hyn chwarae a chymdeithasu gydag eraill yn eu cymuned leol. Aeth y staff ymlaen i ddweud eu bod yn teimlo ei bod yn bwysig iawn cael y plant oddi ar eu sgriniau gartref. Nid yw rhai plant yn gwybod sut i ddal pêl pan fyddant yn dechrau mynychu'r sesiynau, ond mae hwn yn sgîl y byddant yn ei ddysgu'n gyflym pan fyddant yn chwarae gyda'r gweithwyr a gyda phlant arall. Soniodd un person ifanc a oedd yn gwirfoddoli am ei phrofiad hi o fynychu'r sesiwn a sut yr oeddent yn mwynhau treulio amser gyda'r bobl yno, a'i fod yn tynnu eu sylw oddi ar yr anawsterau yr oeddent yn eu cael yn y coleg ar y pryd.

### ***Arsylwadau Arad***

Roedd hi'n ymddangos bod y plant wir yn mwynhau rhedeg o gwmpas y tu allan a chymryd rhan mewn nifer o wahanol gemau a gweithgareddau, ond mewn amgylchedd diogel. Mae'n ymddangos bod gan y plant, y bobl ifanc a'r gweithwyr berthnasoedd cyfeillgar a da iawn gyda'i gilydd.



## **Astudiaeth Achos Darparwr: Cynllun chwarae yng Ngheredigion**

### ***Cefndir***

Defnyddiodd Ceredigion ran o'u harian Gwaith Chwarae 2021 i ariannu tai Wales and West (cymdeithas tai cymdeithasol) i ddarparu prosiect cymunedol. Targedodd Tai Wales and West gymuned yn Nhregaron yr oedd yn hysbys ei bod yn dioddef cryn dipyn o droseddau cyffuriau, gan godi ofn ar nifer o deuluoedd a oedd yn byw ar yr ystad hon. Felly, buont yn siarad gyda'r preswylwyr i gael adborth am yr hyn y bydden nhw a'r plant ar yr ystad yn dymuno'i weld. Nid oedd fawr iawn o gyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae corfforol, felly penderfynodd y prosiect ganolbwyntio ar offer chwaraeon a chwarae mynediad agored yn yr awyr agored ar yr ystad.

### ***Disgrifiad***

Roedd y prosiect wedi cynnwys prynu sied chwarae ac offer chwarae i'w gosod ar yr ystad ar ddarn bach gwyrdd, er mwyn i bawb fanteisio arnynt. Roedd grŵp anffurfiol o rieni a oedd yn helpu i redeg y sied a chwarae gyda'r plant. Fel rhan o hyn, cynigiwyd y cyfle i rieni uwchsgilio hefyd a chymryd rhan mewn hyfforddiant chwarae. Roedd y sied yn cynnwys nifer o wahanol fathau o offer megis rampiau sgwter symudol, rhwydi tenis a racedi, peli, cyrt sgipio, sialc enfawr, pecynnau COVID-19 ac ati. Roedd hyn wedi annog y plant i gyflawni amrywiaeth o wahanol weithgareddau a chwaraeon tîm yn eu cymuned, a bu modd iddynt ddefnyddio'r conau hefyd er mwyn neilltuo ardaloedd i'r plant allu chwarae yn ddiogel. Yn ogystal, maent wedi dechrau cynnal digwyddiadau yn y sied, er enghraifft, cynhaliwyd groto Siôn Corn yno dros y Nadolig a helpa wyau pasg dros y Pasg. Mae'r cynllun wedi bod yn rhedeg ers yr haf 2021 ac mae wedi cynnig budd i 23 o blant 0-15 oed. Costiodd y cynllun tua £1,000 at ei gilydd a daeth hanner yr arian hwn o Gwaith Chwarae 2021 (roedd yr hanner arall yn gyllid mewnol gan Dai Wales and West).

### ***Adborth gan Dai Wales and West***

Roedd y darparwr yn teimlo bod y prosiect wedi dwyn y gymuned ynghyd mewn ffordd effeithiol, gan wella cydlyniant cymunedol. Nid yn unig y teimlwyd ei fod wedi gwella'r cyfleoedd chwarae i blant, a'u hannog i fod y tu allan a chymdeithasu, a gwella eu hiechyd a'u lles, ond bu effeithiau cadarnhaol ar rieni a theuluoedd hefyd. Bu modd i'r rhieni a fu'n ymwneud â'r hyfforddiant uwchsgilio a chael ymdeimlad o ddiben a chyfrifoldeb. Rhoddwyd seibiant i'r rhieni tra bod y plant yn chwarae y tu allan, ac roedd wedi lleihau'r pwysau ar deuluoedd i ddarparu offer chwarae a gwario arian ar ddiddanu plant yn ystod y gwyliau ysgol, sy'n gallu bod yn anhawster go iawn i deuluoedd ar incwm isel. Yn ogystal, gofynnwyd i bobl ifanc yn eu harddegau i oruchwylio rhestrau gwirio yr offer hefyd yn aml, a oedd yn cynnig ymdeimlad o gyfrifoldeb iddynt. Nododd y darparwr hefyd y gwelwyd gostyngiad yn nifer yr adroddiadau am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a mân gwynion ers y cychwynnodd y prosiect. Cysylltwyd hyn gyda'r ffaith bod y plant a'r bobl ifanc yn eu harddegau yn teimlo bod ganddynt gyfrifoldeb dros yr offer, felly ni fyddant yn ei fandaleiddio, a'r ffaith eu bod yn cael lle i chwarae yn hytrach na chwarae mewn mannau lle y mae'r preswylwyr yn debygol o gwyno (h.y. plant yn taro peli yn erbyn ceir ac ati).

### ***Adborth gan riant/gwirfoddolwr***

Siaradwyd gydag y riant a oedd wedi gwirfoddoli rhedeg y cynllun chwarae cymunedol fel rhan o'r gwerthusiad. Roedd hi'n teimlo bod yr hyfforddiant wedi bod yn ddefnyddiol iawn oherwydd er nad oedd ganddi blant ei hun, roedd yn ddiddorol dysgu mwy am chwarae a manteision chwarae. Roedd hi'n teimlo bod y cynllun wedi cynnig sawl budd, megis dwyn y gymuned ynghyd, cynnig y cyfle i blant chwarae y tu allan, cynnig mwy o gyfleoedd cymdeithasu i blant ers y pandemig a gwella ymddygiad pobl ifanc yn eu harddegau ar ôl iddynt gael mwy o gyfrifoldeb. Roedd hi'n obeithiol y byddai'r cynllun yn parhau i gynnig y manteision hyn a hoffai ei weld yn cael ei ymestyn yn y dyfodol, gan gynnig mwy o offer.

## 6. Casgliadau ac argymhellion

- 6.1 Nod y gwerthusiad oedd gwerthuso Gwaith Chwarae 2021 ac asesu ei effeithlonrwydd a'i effeithiolrwydd. Casglwyd dystiolaeth gan ddefnyddio dulliau gweithredu cymysg: cynhaliwyd gwaith ymchwil ansoddol gydag arweinwyr chwarae awdurdodau lleol a sampl o deuluoedd a darparwyr prosiectau gwyliau. Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r casgliadau ac yn cynnig argymhellion ar sail y dystiolaeth a gasglwyd.
- 6.2 Nod cyllid Gwaith Chwarae 2021 oedd caniatáu i gynlluniau gwaith chwarae cymunedol gynnig darpariaeth i ragor o blant nag y byddent wedi gallu gwneud fel arall, ac mae'r dystiolaeth yn dangos y darparwyd gweithgareddau newydd, ychwanegol. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad yn dynodi bod arweinwyr chwarae awdurdodau lleol yn croesawu'r cyllid ychwanegol sydd ar gael ar gyfer chwarae ac mae wedi caniatáu iddynt roi sylw i'r bylchau a nodwyd yn eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chynnig darpariaeth chwarae i fwy o blant mewn mwy o gymunedau. Esboniodd awdurdodau lleol, fodd bynnag, bod angen amser arnynt i gynllunio chwarae, recriwtio a hyfforddi staff, ffurfio cysylltiadau gyda'r sector chwarae ehangach a chomisiynu prosiectau, felly byddent yn gwerthfawrogi digon o rybudd cyn y caiff unrhyw gyllid ei ddyrannu, neu cyn unrhyw newidiadau i'r cyllid. Byddai gwybod y byddai cyllid ar gael am gyfnod o flynyddoedd yn cynorthwyo wrth recriwtio a chadw staff hefyd.

Argymhelliad 1 – Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ariannu Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae fel cyllid parhaus i gynorthwyo chwarae o flwyddyn i flwyddyn.

- 6.3 Esboniodd awdurdodau lleol bod y cyllid i gynorthwyo chwarae cymunedol dros y blynyddoedd diwethaf wedi tueddu i gael ei neilltuo yn gymharol ddirybudd, yn hytrach na bod yn rhan o raglen hirach o gyllid wedi'i gynllunio. Roedd hyn yn wir hefyd am y cronfeydd eraill a neilltuwyd yn ystod 2021/22 fel ymateb i'r pandemig (h.y., Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles). Er bod yr awdurdodau lleol a'r darparwyr chwarae yn croesawu'r rowndiau hyn o gyllid chwarae, mae wedi tynnu oddi ar yr amser a'r gallu i gynllunio a darparu gweithgareddau gan ddefnyddio cyllid Gwaith Chwarae 2021. I nifer o awdurdodau lleol, roedd defnyddio cyllid Gwaith Chwarae

2021 yn fater o'i gyd-fynd gyda'r grantiau mwy. Bu'r rhybudd byr a'r cynnydd sydyn yn y cronfeydd a oedd ar gael ar gyfer chwarae (a oedd yn gysylltiedig gyda chronfeydd Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles) yn her i awdurdodau lleol, ac wedi ei gwneud yn anodd iddynt gynllunio mewn ffordd systematig. Mewn cymhariaeth, croesawyd cyllid Gwaith Chwarae – ar ôl y nodwyd yn glir i awdurdodau lleol y byddai'n cael ei gynnwys yn y gyllideb tan 2025 – fel sylfaen ar gyfer darpariaeth chwarae mwy strategol ac wedi'i chynllunio.

**Argymhelliad 2:** Wrth ystyried y model cyllido yn y dyfodol ar gyfer chwarae, dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyllid dros y tymor hwy fel y gellir cynllunio'r ddarpariaeth chwarae a'i hamserlenni dros gyfnod o flynyddoedd.

- 6.4 Mae'r grantiau a'r ffynonellau cyllid amrywiol a ddarparwyd ar gyfer chwarae dros y blynyddoedd diweddar yn amrywio o ran eu cynllun, eu hamseriad, eu dulliau adrodd, eu cynulleidfaoedd targed a'u lefelau cyllid. Fodd bynnag, cânt eu rheoli gan yr un unigolion yn aml, a'u darparu gan rai o'r un darparwyr ac maent yn cyrraedd nifer o'r un plant. Felly, gallai dull gweithredu mwy cydlynol arbed amser gweinyddol a helpu awdurdodau lleol ac eraill i gynllunio cynnig chwarae mwy cydlynol dros gyfnod hwy.

**Argymhelliad 3:** Pan fo modd, dylai Llywodraeth Cymru archwilio dewisiadau er mwyn diwygio a symleiddio'r cyllid sydd ar gael ar gyfer chwarae.